
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 No. 1267

**Rheoliadau Cynlluniau Trwyddedau
Rheoli Traffig (Cymru) 2009**

RHAN 1

Rhagarweiniad

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Trwyddedau Rheoli Traffig (Cymru) 2009, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Mehefin 2009.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr “amod trwydded” (“*permit condition*”) yw amod a osodir ar drwydded yn rhinwedd darpariaeth a wneir mewn cynllun trwyddedau o dan reoliad 10 neu amod a bennir mewn cynllun trwyddedau o dan reoliad 13;

mae i'r term “ardal benodedig” (“*specified area*”) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 7;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae i “awdurdod perthnasol” yr un ystyr â “relevant authority” yn adran 49(6) o Ddeddf 1991;

mae i “awdurdod strydoedd” yr ystyr a roddir i “street authority” yn adran 49(1) o Ddeddf 1991 (diffinio'r awdurdod strydoedd ac awdurdodau perthnasol eraill);

ystyr “Awdurdod Trwyddedau” (“*Permit Authority*”), o ran cynllun trwyddedau, yw'r awdurdod neu'r awdurdodau priffyrdd lleol perthnasol sydd wedi cyflwyno, neu sy'n bwriadu cyflwyno, y cynllun trwyddedau hwnnw i Weinidogion Cymru o dan adran 33(1) neu (2) o Ddeddf 2004 (paratoi cynlluniau trwyddedau);

ystyr “blaenawdurdodiad dros dro” (“*provisional advance authorisation*”) yw awgrym ei bod yn debygol y câi trwydded ar gyfer gwaith penodol sydd yn yr arfaeth ei rhoi yn y dyfodol;

mae i “cyfathrebiad electronig” yr ystyr a roddir i “electronic communication” yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig (dehongli'n gyffredinol)(1);

ystyr “cyfnod amser” a “parhad” (“*duration*”) yw talm o amser parhaus ac mae'n cynnwys talm o amser y gellir ei asesu drwy gyfeirio at amser dechrau ac amser gorffen a ddarparwyd;

ystyr “Deddf 1991” (“*the 1991 Act*”) yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(2);

(1) [2000 p.7](#)
. Diwygiwyd adran 15(1) gan Ddeddf Cyfathrebiadau
[2003 \(p.21\)](#)
, adran 406(1) ac Atodlen 17, paragraff 158.

(2) [1991 p.22](#)

ystyr “Deddf 2004” (“*the 2004 Act*”) yw Deddf Rheoli Traffig 2004;

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn unrhyw ddydd sydd, o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(3), yn wyl banc yng Nghymru a Lloegr;

mae i “gwaith at ddibenion ffyrdd” yr ystyr a roddir i “works for road purposes” yn adran 86(2) o Ddeddf 1991 (awdurdodau priffyrdd, priffyrdd a materion cysylltiedig);

mae i'r term “gwaith penodedig” (“*specified works*”) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 6;

ystyr “gwaith trwydded” (“*permit works*”) yw gwaith a awdurdodwyd drwy drwydded;

mae “gwasanaethau brys” (“*emergency services*”) yn cynnwys —

(a) gwasanaethau heddlu, gwasanaethau tân, gwasanaethau achub a gwasanaethau ambiwlans; a

(b) Gwylwyr Glannau Ei Mawrhydi;

ystyr “is-gyfnod” (“*phase*”), mewn perthynas â gwaith penodedig, yw cyfnod pryd y meddiennir stryd yn ddi-dor a phryd y gwneir rhan o'r gwaith hwnnw;

ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae “offer” (“*apparatus*”) yn cynnwys carthffos, traen neu dwnnel yn ogystal ag unrhyw adeiledd i osod offer ynddo neu i gael mynediad i offer;

mae i'r term “strydoedd penodedig” (“*specified streets*”) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 8;

ystyr “trwydded” (“*permit*”) yw awdurdodiad gan yr Awdurdod Trwyddedau sy'n caniatáu i waith penodedig neilltuol gael ei wneud ar un stryd benodedig am gyfnod amser penodedig; ac

ystyr “ymgymerwr statudol” (“*statutory undertaker*”) yw person sydd â hawl yn rhinwedd hawl statudol i wneud gwaith stryd.

(2) Tramgwyddau cosb benodedig yw'r tramgwyddau a nodir yn rheoliadau 19 ac 20 at ddibenion Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn.